**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

10 Chwefror 2014

Annwyl Gyfaill,

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal **ymchwiliad i'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ar weithredu Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Llywodraeth Cymru**

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw archwilio'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yng Nghymru, gan gynnwys:

- A yw Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni'r canlyniadau a'r mesurau perfformiad, fel y'u nodir yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser, erbyn 2016;
- Y cynnydd o ran lleihau'r bwlch anghydraddoldebau mewn achosion o ganser a chyfraddau marwolaethau;
- Effeithiolrwydd gwasanaethau sgrinio ar gyfer canser a lefel y defnydd o fewn poblogaeth Cymru, yn arbennig y grwpiau sy'n fwy anodd eu cyrraedd;
- A all cleifion ledled Cymru gael mynediad at y gofal sydd ei angen (er enghraifft, mynediad at brofion diagnostig neu ofal y tu allan i oriau) mewn lleoliad priodol ac mewn modd amserol;
- Lefel y cydweithio o fewn sectorau, yn arbennig rhwng y GIG a'r trydydd sector, er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan dimau amlddisgyblaethol;

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

- A yw'r lefel bresennol o gyllid ar gyfer gwasanaethau canser yn briodol, yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn sicrhau gwerth am arian.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig gan ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor ar ein gwefan fel ei bod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fo'n berthnasol, yn unol â'u polisïau ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i **PwyllgorIGC@cymru.gov.uk.**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **dydd Gwener 4 Ebrill 2014.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Wrth baratoi eich sylwadau, cofiwch:

- ddefnyddio dim mwy na phum ochr A4;
- defnyddio paragraffau wedi'u rhifo;
- (os byddwch yn anfon sylwadau electronig) byddai'n well defnyddio dogfennau Word, yn hytrach na ffeiliau pdf;
- canolbwyntio ar y cylch gorchwyl uchod.

Er gwybodaeth, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu atodedig anfon sylwadau. Byddem yn ddiolchgar petaech

yn gallu anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr hon, ond a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau. Byddwn yn cynnal dwy sesiwn o dystiolaeth lafar ym mis Mai a mis Mehefin 2014.


**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i Bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



**David Rees AC**
**Cadeirydd**

## Atodiad: Rhestr ddosbarthu

Age Cymru
Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan
Ymddiriedolaeth Anthony Nolan
ASH Cymru
Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain
Sgrinio Coluddion Cymru
Breakthrough Breast Cancer
Breast Cancer Care Cymru
Bron Brawf Cymru
Cymdeithas Brydeinig a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol
Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
Y Groes Goch Brydeinig
Gwasanaeth Geneteg Canser Cymru
Gwybodaeth am Ganser a Gwasanaethau Cefnogol
System Gwybodaeth Canser Cymru
Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol ar Ganser
Cancer Research UK
Ymchwil Canser Cymru
Prifysgol Caerdydd – Sefydliad Canser a Geneteg
Ymddiriedolaeth Ganser Cymru
Sgrinio Serfigol Cymru
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi yng Nghymru
CLIC Sargent
Cynghorau Iechyd Cymuned
Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Canser
Cynghrair Geneteg y DU
GlaxoSmithKline
Hosbisau Cymru
Sefydliad Ymchwil Canser
Kidney Cancer UK
Byrddau Iechyd Lleol
Cymorth Canser Macmillan
Canolfannau Maggie
Marie Curie
Myeloma UK
Ymddiriedolaethau'r GIG

Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
NICE
NISCHR
Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru
Pancreatic Cancer UK
Cymdeithas y Cleifion
Prostate Cancer UK
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Sefydliad Canserau Prin
Sefydliad Canser yr Ysgyfaint Roy Castle
Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Coleg Nyrsio Brenhinol
Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Coleg Brenhinol y Radiolegwyr
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
Coleg Brenhinol y Radiolegwyr
Coleg Brenhinol y Llawfeddygon
Rhwydwaith Canser De Cymru
Teenage Cancer Trust
Tenovus
Canolfan Ganser Felindre
Cynghrair Canser Cymru
Banc Canser Cymru
Uned Treialon Canser Cymru
Parc Geneteg Cymru
Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru